Pa seibiannau y mae gennyf hawl iddynt o dan y rheoliadau oriau gwaith?

Mae Rheoliadau Oriau Gweithio 1998 yn nodi'r ddarpariaeth ganlynol ar gyfer seibiannau yn y gwaith ac amser i ffwrdd:

Seibiannau yn y gwaith
Mae hawl gan y gweithiwr i gael seibiant didor o 20 munud pan fydd oriau gwaith dyddiol yn fwy na chwe awr. Dylai fod yn seibiant yn ystod oriau gwaith ac ni ddylid ei gymryd naill ar ddechrau neu ar ddiwedd diwrnod gwaith.

Seibiant dyddiol
O dan Reoliadau Oriau Gweithio 1998, rheoliad 10, mae hawl gan weithiwr i gael cyfnod o seibiant o 11 awr dilynol ym mhob cyfnod o 24 awr y mae'n gweithio ar gyfer ei gyflogwr.

Fodd bynnag, mae nifer o amgylchiadau arbennig lle nad yw'r hawl i gael cyfnodau o seibiant yn gymwys, er enghraifft, pan fydd y gweithgareddau yn ymwneud â'r angen am barhad gwasanaeth neu broses gynhyrchu neu pan ellir rhagweld ymchwydd mewn gweithgaredd. Hefyd, os bydd gweithiwr sifft yn newid sifft, efallai na fydd yn bosibl iddynt gymryd eu hawl i gael seibiant yn llawn cyn dechrau'r patrwm gwaith newydd. Mewn achosion o'r fath nid yw'r hawl i gael seibiant dyddiol ac wythnosol yn gymwys.

yn ôl i'r brig

Seibiant wythnosol
Mae hawl gan weithiwr sy'n oedolyn i gael diwrnod o seibiant yr wythnos; gellir cyfartalu hyn dros 2 wythnos.

Gweithwyr ifanc
Os bydd angen i weithiwr ifanc weithio am fwy na phedair awr a hanner ar y tro, yna mae hawl ganddynt i gael seibiant o 30 munud. Mae hawl gan weithiwr ifanc hefyd i gael cyfnod didor o ddeuddeg awr ym mhob 24 awr y maent yn gweithio. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir addasu neu ddileu'r hawliau hyn. Mae gan weithiwyr ifanc hawl hefyd i gael 2 ddiwrnod i ffwrdd bob wythnos ac ni ellir cyfartalu hyn dros 2 wythnos.

Mae canllaw am ddim a gynhyrchwyd gan yr adran Masnach a Diwydiant, a all ddarparu rhagor o wybodaeth.

Cyfeiriadau

- DTI: A Guide to Working Time Regulations, URN 03/1068

Os bydd angen rhagor o gyngor arnoch o ran seibiannau yn y gwaith ac amser i ffwrdd, cysylltwch ag ACAS.

- Gwefan ACAS